**Crynodeb o Gyfarfod Bwrdd S4C**
Cyfarfod Rhif 469 a gynhaliwyd yn Yr Egin

09.45, 14 Mawrth 2024

---

**Cofnodion**

| | | |
|---|---|---|
| **Aelodau oedd yn bresennol:** | | |
| Rhodri Williams | RhW | Cadeirydd y Bwrdd |
| Guto Bebb | GB | Aelod Anweithredol – ag eithrio eitemau 3 |
| Suzy Davies | SuD | Aelod Anweithredol |
| Chris Jones | CJ | Aelod Anweithredol |
| Denise Lewis Poulton | DLP | Aelod Anweithredol (yn rhithiol) |
| Elin Morris | EM | Prif Weithredwr dros dro – o eitem 2 ymlaen |
| Geraint Evans | GE | Prif Weithredwr dros dro – o eitem 2 ymlaen |
| **Eraill oedd yn bresennol:** | | |
| Rhys Bevan | RhB | Pennaeth Gweithrediadau Cynnwys– ar gyfer eitem 13 |
| Ryan Chappell | RC | Arweinydd Amrywiaeth, Cynaliadwyedd a Phwrpas Cymdeithasol – ar gyfer eitem 13 |
| Steve Cowin | SC | Prif Swyddog Technolegol – ar gyfer eitem 12 |
| Manon Edwards-Ahir | ME-A | Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata – o eitem 2 ymlaen |
| Llinos Priestland | LlP | Swyddog Gweithredol i Ysgrifennydd y Bwrdd |
| Geraint Pugh | GP | Ysgrifennydd Bwrdd S4C |
| Sioned Wiliam | SW | Darpar Prif Weithredwr dros dro – o eitem 2 ymlaen |
| Mali Williams | MW | Arweinydd Materion Cyhoeddus – ar gyfer eitem 5 |
| Sharon Winogorski | ShW | Prif Swyddog Cyllid (yn rhithiol) ar gyfer eitemau 2 a 3 |
| **Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:** | | |
| Adele Gritten | AG | Aelod Anweithredol |

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Cyfarfod preifat ar gyfer yr aelodau anweithredol**<br><br>Trafodwyd bapur mewn perthynas ag aelod o’r Tîm Rheoli yn ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol. | |
| 2. | [ymunodd EM, SW, ME-A, GE a ShW â’r cyfarfod]<br><br>**Materion a godwyd gan y Cadeirydd, a datganiadau diddordeb**<br><br>Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn enwedig SW wrth iddi baratoi i gychwyn fel y Prif Weithredwr dros dro ar 08 Ebrill.<br><br>Adroddwyd y byddai’r Ysgrifennydd Gwladol yn cyhoeddi’n hwyrach heddiw penodiad GB fel Cadeirydd dros dro. Y disgwyl oedd y byddai DCMS yn cychwyn y broses i benodi Cadeirydd hir dymor yr un pryd. Nododd Guto fod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi ei holi am sgwrs yn ystod y cyfarfod er mwyn cadarnhau’r trefniadau.<br><br>Dyma oedd cyfarfod olaf RhW cyn diwedd ei dymor fel Cadeirydd ar 31 Mawrth 2024. Diolchodd i bawb yn S4C am y cyfan sydd wedi’i gyflawni yn ystod y 4 mlynedd diwethaf. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Diolch hefyd i GP yn arbennig am fod yn llais call a charedig drwy gydol popeth dros y misoedd diwethaf.<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd unrhyw Aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod i ddatgan eu diddordeb. Nodwyd bod aelodau wedi nodi diddordebau parhaol mewn perthynas â'u haelodaeth o'r Bwrdd.<br><br>[Gadawodd GB y cyfarfod] | |
| 3. | **Cymeradwyo Cyllideb 2024–25 (a'r cynllun ariannol pum mlynedd)**<br><br>Cyflwynodd ShW bapur, gan ofyn i'r bwrdd gymeradwyo'r gyllideb ar gyfer 2024-25 ac amlinellodd oblygiadau ar gyfer y blynyddoedd i ddilyn.<br><br>Roedd hi wedi derbyn cadarnhad gan DCMS bod y cyllid o'r ffi drwydded yn £95 miliwn – oedd ychydig yn uwch na'r hyn ddisgwyliwyd yn sgil cadarnhau sut pa ddangosydd chwyddiant CPI fyddai'n cael ei ddefnyddio.<br><br>Gwnaeth CJ llongyfarch y Tîm Rheoli am reoli costau, yn enwedig yn sgil effaith chwyddiant a adnabuwyd tua 18 mis yn ôl.<br><br>Holodd RhW pa ganran o'r incwm fyddai'n dod o'r buddsoddiadau masnachol? Esboniodd ShW nad oedd wedi ffactorio mewn unrhyw incwm drwy werthu cyfranddaliadau mewn buddsoddiadau masnachol presennol, ac felly roedd y ffigur a nodwyd yn gymysgedd o incwm arferol o'r gronfa Sarasin ac elw o werthu hysbysebion.<br><br>Gofynnodd DLP sut rydym yn tracio treuliau o flwyddyn i flwyddyn? Atebodd ShW ei bod yn cadw llygad ar swyddi gwag a hefyd y swm sy'n cael ei wario ar bethau eraill heblaw cynnwys. Rydym wedi cadw teithio a chynhaliaeth yn statig o un flwyddyn i'r llall, ac yn edrych i barhau i weithredu o fewn y gyllideb honno.<br><br>Holodd DLP ymhellach beth fyddai'r naratif am broses a chostau Capital Law yn Adroddiad Blynyddol? Atebodd GP bod hyn wedi'i drafod gyda Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac fe fyddai yna adran arbennig yn Adroddiad Blynyddol yn gosod y sefyllfa allan yn fanwl.<br><br>**Penderfyniad: Cymeradwywyd Cyllideb 2024-25.**<br><br>[Dychwelodd GB i'r cyfarfod, a gadawodd ShW y cyfarfod] | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>ShW |
| 4.<br><br>4 | **Strategaeth Marchnata a Chyfathrebu**<br><br>Cyflwynodd ME-A fersiwn diwygiedig o'r Strategaeth oedd eisoes wedi bod gerbron y Pwyllgor Cyfathrebu. Pwysleisiodd bod yna gynlluniau ynghlwm â'r Strategaeth – gan gynnwys cynllun cyfathrebu mewnol – sy'n edrych ar adfer perthynas gyda rhanddeiliaid blaenllaw dros y 6 mis nesaf.<br><br>Diolchodd DLP i ME-A gan ategu beth dwedodd yn y Pwyllgor Cyfathrebu – sef mai dyma'r tro cyntaf i S4C cael Strategaeth Gyfathrebu yn ei barn hi sy'n tynnu popeth ynghyd.<br><br>O ran gweithredu'r cynllun cyfathrebu mewnol bydd ME-A, MW a GP yn cynnal cyfarfod wythnos nesaf er mwyn dechrau rhoi pethau ar waith.<br><br>Amlinellwyd y gwaith sydd ar ôl i'w wneud. Gan nad oes Dangosyddion Perfformiad penodol wedi bod i'r adran ers tipyn, mae nawr angen gosod sylfaen ar eu cyfer. Mae'r adran ymchwil – sydd bellach yn rhan o adran ME-A – wedi dechrau ar y gwaith ac yn sicrhau bod nhw'n rhai ystyrlon.<br><br>Soniodd ME-A bod ymchwil wedi dangos nad oedd digwyddiadau mewnol yn S4C dros y misoedd diwethaf wedi effeithio ar fwynhad y gynulleidfa a'u canfyddiad o'n cynnwys. Nodwyd bod hi'n bwysig parhau i gadw hyn yn gyson.<br><br>Sylwodd DLP bod y cynllun cyfathrebu mewnol yn eisiau a holodd am ddiweddariad. Sicrhaodd ME-A bod y cynllun cyfathrebu mewnol yn mynd i ffurfio rhan o'r cynllun gweithredu, a bod hi'n gweithio'n agos gyda SW a'r Tîm Rheoli ar hynny. Ychwanegodd bod sesiwn cyflym ond gwerthfawr wedi'i gynnal yn ystod Cwrdd i Ffwrdd Staff ym mis Ionawr | |

| | | |
|---|---|---|
| | ynghylch beth mae staff yn meddwl o gyfathrebu mewnol a beth maent yn gobeithio gweld.<br><br>Cadarnhaodd ME-A bod hi am ddechrau gweithredu'n syth yn hytrach nag oedi tan fod cynllun ffurfiol wedi ei ddrafftio o ran cyfathrebu mewnol. Ychwanegodd bod yr Arolwg Pwls hefyd yn rhoi arweiniad ar beth mae staff yn dymuno ei weld.<br><br>Holodd GB os oedd S4C yn mynychu'r Cynadleddau Cymreig bellach. Nodwyd had yw S4C wedi eu mynychu am rhai blynyddoedd, ond bod bwriad gwneud i'r dyfodol. Pwysleisiwyd yr angen i fod yn ofalus bod y pleidiau i gyd yn cael eu trin yn yr un ffordd.<br><br>**Penderfyniad: Cymeradwywyd y Strategaeth Marchnata a Chyfathrebu.** | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>ME-A |
| <br><br>5. | [ymunodd MW â'r cyfarfod]<br><br>**Adolygiad Ffi'r Drwydded DCMS**<br><br>Nododd EM i S4C dderbyn llythyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn holi am wybodaeth erbyn 18 Mawrth 2024 fel rhan o adolygiad y DCMS o fodel ariannu'r BBC a'r darlledwyr ieithoedd lleiafrifol. Roedd y papurau a gylchredwyd yn cynnwys sgerbwd er mwyn cael adborth ar ein hymateb arfaethedig. Aeth EM a MW â'r aelodau trwy'r prif agweddau ac egwyddorion.<br><br>Roedd DCMS wedi ein holi i ragweld costau hyd at 2028, mae hyn yn dipyn o her oherwydd mae'n anodd rhagweld chwyddiant a'r sefyllfa o ran technoleg mor bell yn y dyfodol.<br><br>Trafodwyd y sgerbwd ac fe dderbyniwyd adborth gan yr aelodau.<br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo'r egwyddorion.**<br><br>[gadawodd MW y cyfarfod] | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>EM / MW |
| 6. | **Cymeradwyo Datganiad o Bolisi Rhaglenni 2024–25 (ar gyfer Ofcom)**<br><br>Cyflwynodd GE y ddogfen oedd eisoes wedi bod gerbron y Pwyllgor Cyfathrebu.<br><br>Roedd cwestiwn wedi codi yn y Pwyllgor Materion Cymreig ym mis Ionawr, a gan TIAA hefyd yng nghyd destun archwiliad mewnol diweddar, ynglŷn â'r angen am Strategaeth Cynnwys a Chyhoeddi oedd yn tynnu'r egwyddorion comisiynu a chyhoeddi sydd eisoes gennym ynghyd. Roedd GE yn edrych i gyflwyno Strategaeth o'r fath yn y misoedd nesaf.<br><br>**Penderfyniad: Cymeradwywyd y Datganiad o Bolisi Rhaglenni 2024-25 (ar gyfer Ofcom).**<br><br>**Penderfyniad: GE i gyflwyno strategaeth cynnwys a chyhoeddi.** | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>GP<br><br><br>GE |
| 7. | **Canlyniad yr arolwg pwls**<br><br>Roedd Catrin Whitmore ar wyliau blynyddol felly wnaeth EM a GE cyflwyno'r canlyniadau. Yn gyffredinol, roedd nifer o ganlyniadau wedi gwella o'r sail isel osodwyd ym Mawrth 2023. Roedd hyn yn rhoi rhywfaint o obaith ond roedd yn glir bod dal tipyn o le i wella. Roedd sylwadau agored pawb wedi'i gynnwys yn y canlyniadau ac ambell un wedi'i ail-eirio i osgoi gallu adnabod unigolion.<br><br>Wrth symud ymlaen, bydd y Tîm Rheoli yn dadansoddi'r canlyniadau'n fanwl er mwyn adnabod y camau gweithredu.<br><br>Soniodd ME-A bod angen sensitifrwydd wrth i ni geisio sefydlogi ond hefyd parhau i drawsnewid oherwydd nid yw disgwyliadau'r sector a'r gynulleidfa yn aros yn llonydd. | |
| 8.<br><br>8.1. | **Adroddiad y Tîm Rheoli**<br><br>Amlinellodd GE prif agweddau'r adroddiad, gan nodi y byddai'r Cynllun Gweithredu yn adroddiad sefydlog ar agenda'r Bwrdd o fis Mai ymlaen.<br><br>Esboniodd GE beth ddigwyddodd ynglŷn â'r pleidleisio yn dilyn Cân i Gymru. Roedd y cwmni wedi syrthio ar ei fai ac wedi ymrwymo i ad-dalu costau galwadau unrhyw un | |

| | | |
|---|---|---|
| | wnaeth pleidleisio mwy nag unwaith. S4C nawr yn llunio neges addas er mwyn hysbysu pobl sut i hawlio ad-daliad.<br><br>Holodd DLP oes oedd y broses o dynnu sylw aelodau'r Bwrdd at ddigwyddiadau o bwys allai effeithio ar enw da S4C yn ddigonol? Ychwanegodd bod neges GP iddynt ar sefyllfa Cân i Gymru yn ddefnyddiol ond bod angen sicrhau ein bod yn hapus gyda'r broses o hysbysu'r Bwrdd. Nododd ME-A bod yr adran wedi colli deuddydd yn ceisio cael gafael ar y cwmni oedd yn darparu'r system bleidleisio, byddai wedi bod yn ddefnyddiol gallu dechrau'r ymchwiliad y bore canlynol. Datganodd RhW pwysigrwydd yr ymddiheuriad prydlon.<br><br>Roedd EM a GE wedi bod yn trafod gwelliannau posib i bresenoldeb S4C ar iPlayer gyda'r BBC. Mae'r BBC wedi cytuno i'r gwelliannau ond nawr yn aros iddynt weithredu.<br><br>**Penderfyniad: Rhannu copi o 'Roadmap' ar gyfer cael ap Clic ar fwy o blatfformau gyda'r aelodau wedi'r cyfarfod.** | EM |
| 9. | **Swyddfa Caernarfon**<br><br>Rhannodd EM y cynlluniau ar gyfer ehangu a gwella swyddfa Caernarfon. Trafodwyd y rhesymau dros ehangu'r gofod sydd ar gael, a phwysigrwydd buddsoddi yn y swyddfa yn y gogledd.<br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo gyda'r egwyddor ond edrych ar gwtogi ar y gost os yn bosib.** | EM |
| 10. | **Materion Llywodraethiant**<br><br><u>Ystyried gwerthusiad o effeithiolrwydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau</u><br><br>Rhwng 20 Chwefror a 01 Mawrth 2024, gwahoddwyd aelodau'r Bwrdd i gwblhau holiadur er mwyn cynnig adborth adeiladol ar drefniadau'r corff dros y flwyddyn adrodd ddiwethaf. Holwyd i'r aelodau gwblhau holiaduron tebyg mewn perthynas â'r pwyllgorau. Cyflwynwyd y canlyniadau i gyd mewn adroddiad.<br><br>Byddai'r adborth a gafwyd yn llywio sut mae'r Bwrdd a'r Pwyllgorau yn ymdrin â'u gwaith yn ystod y flwyddyn adrodd sydd i ddod, fel eu bod yn cyflawni eu busnes mor effeithiol â phosibl.<br><br><u>Diwygio Cod Ymarfer Aelodau'r Bwrdd</u><br><br>Yn y Cynllun Gweithredu a gyhoeddwyd ar 29 Chwefror 2024 mewn ymateb i broses Capital Law, ymrwymwyd i adolygu Cod Ymarfer Aelodau'r Bwrdd.<br><br>Roedd hefyd ymrwymiad i ddatblygu polisi addas ar gyfer delio gyda chwynion am aelodau anweithredol. Yn dilyn trafodaeth rhwng yr Ysgrifennydd, y Pennaeth Cyfreithiol a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, awgrymir nad llunio polisi arbennig fyddai'r ffordd orau o ddelio gyda'r mater. Mae'r awgrym hwn yn seiliedig ar y ffaith nad yw'r aelodau anweithredol yn gyflogedig gan S4C, ac nad yw'r camau disgyblu arferol i gyd ar gael (os oes eu hangen) gan mai mater i'r DCMS yw diswyddo aelod anweithredol.<br><br>Felly, yn hytrach na llunio polisi arbennig, awgrymir bod y Cod Ymddygiad yn cynnwys adran sy'n gwneud yn glir bod disgwyl i'r aelodau anweithredol gydymffurfio gydag egwyddorion y polisïau sydd gan S4C ar gyfer ei staff.<br><br>Roedd GP bellach wedi adolygu'r hyn sy'n arferol o ran codau ymarfer ac wedi awgrymu mân ddiwygiadau i God Ymarfer hanesyddol Awdurdod S4C. Roedd y prif newidiadau'n cynnwys:<br>• Ehangu'r adran mewn perthynas ag ymddygiad a gwerthoedd.<br>• Ehangu'r adran ar wrthdaro buddiannau.<br>• Cyflwyno adrannau ar 'Derbyn Rhoddion a Lletygarwch', 'Teithio, Llety a Threuliau', a 'Siarad yn gyhoeddus' gan dynnu ar egwyddorion sydd eisoes wedi eu cytuno gan y Bwrdd.<br>• Cyflwyno adran yn benodol yn ymdrin â sut mae polisïau S4C yn berthnasol i'r aelodau anweithredol.<br>• Bod yn fwy eglur ynghylch tymhorau aelodau'r Bwrdd, a threfniadau dod ag aelodaeth o'r Bwrdd i ben. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Roedd y Pennaeth Cyfreithiol a’r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol wedi adolygu’r drafft newydd, ac roedd eu hadborth wedi eu rhannu gydag aelodau’r Bwrdd y bore hwnnw. | |
| | Trafodwyd y diwygiadau i’r Cod Ymarfer. Wrth wneud hynny, nododd SuD y byddai’n well ganddi ychwanegu bach mwy o fanylder ynghylch ein gweithdrefnau ar gyfer delio gyda chwynion yn ymwneud ag aelodau anweithredol. Fodd bynnag, yn hytrach na chynnwys y wybodaeth yn y Cod Ymarfer, awgrymwyd y byddai cynnwys paragraff sy’n croesgyfeirio i’r Cod Ymarfer yn y polisïau adnoddau dynol perthnasol yn ddigonol. | |
| | **Penderfyniad: I gymeradwyo’r Cod Ymarfer, ar sail y fersiwn diwygiedig yn dilyn adborth y Pennaeth Cyfreithiol.** | GP |
| | **Penderfyniad: Bod paragraffau pwrpasol yn cael eu hychwanegu i’r polisïau adnoddau dynol perthnasol i gyfeirio at sut i drin gyda materion yn ymwneud â’r aelodau anweithredol.** | GP |
| | <u>Comisiynu Adolygiad Allanol o Effeithiolrwydd Llywodraethu</u> | |
| | Fel rhan o’r Cynllun Gweithredu a gyhoeddwyd ar 29 Chwefror 2024, ymrwymodd y Bwrdd i gomisiynu adolygiad allanol o effeithiolrwydd llywodraethiant. | |
| | Er mwyn gallu cynnal yr adolygiad allanol yn ystod cylch Mai / Mehefin o gyfarfodydd y Bwrdd a’r pwyllgorau, roedd GP wedi drafftio dogfen ‘Cais am Dendr’ bwrpasol. Trafodwyd y drafft yn ystod y cyfarfod. | |
| | **Penderfyniad: I gymeradwyo’r Cais am Dendr, cyhyd â bod y broses werthuso yn ystyried gallu darparwr yn yr iaith Gymraeg, a bod cyflwyniad i’r Bwrdd ar ddiwedd yr adolygiad yn hanfodol.** | GP |
| | <u>Adolygu cylchoedd gorchwyl ac aelodaeth y Pwyllgorau</u> | |
| | Cyflwynodd GP ei adroddiad ynghylch adolygu cylchoedd gorchwyl ac aelodaeth y Pwyllgorau. | |
| | Roedd y newidiadau i aelodaeth anweithredol y Bwrdd o 01 Ebrill 2024 yn golygu bod angen adolygu aelodaeth pwyllgorau’r Bwrdd. Gan mai ond pump aelod anweithredol fyddai ar y Bwrdd wedi’r dyddiad yna, nodwyd bod angen ystyried opsiynau ar gyfer llenwi bylchau ar y pwyllgorau – gan gynnwys mynd ati i gyfethol aelodau annibynnol i wasanaethu ar y pwyllgorau’n unig. Trafodwyd hyn gan yr aelodau. | |
| | Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu’r diwygiadau arfaethedig i gylchoedd gorchwyl y pwyllgorau, ac yn argymell y dylid cadw pwyllgorau ar wahân ar gyfer materion Cyfathrebu a Chynnwys. | |
| | **Penderfyniad: I benodi AdG fel aelod o’r Pwyllgor Archwilio a Risg.** | LlP |
| | **Penderfyniad: I benodi SuD yn Gadeirydd y Panel Cwynion.** | LlP |
| | **Penderfyniad: I gymeradwyo’r ychwanegiad arfaethedig i Reol Sefydlog 17 i ganiatáu cyfethol aelodau annibynnol i’r Pwyllgorau.** | GP |
| | **Penderfyniad: I holi’r Ysgrifennydd i ddatblygu proses addas ar gyfer mynd ati i gyfethol ac ymchwilio i’r ystyriaethau perthnasol eraill – er mwyn cylchredeg nodyn at aelodau’r Bwrdd yn yr wythnosau nesaf.** | GP |
| | **Penderfyniad: I gymeradwyo’r cylchoedd gorchwyl diwygiedig, a chadw’r Pwyllgorau Cyfathrebu a Chynnwys ar wahân.** | LlP |
| 11. | **Datganiad archwaeth risg** | |
| | Ar 14 Rhagfyr 2023, fe gymeradwyodd y Bwrdd Unedol ddiweddariadau i fatrics archwaeth risg S4C. Mewn ymateb i argymhelliad gan yr archwilwyr mewnol, TIAA, roedd ShW bellach wedi datblygu datganiad i gyd-fynd gyda’r matrics. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Nododd CJ bod y Pwyllgor Archwilio a Risg wedi ystyried y datganiad drafft yn ei gyfarfod diwethaf, gan nodi ei bod o fewn yr ystod o ddatganiad archwaeth risg.<br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo'r datganiad archwaeth risg.** | ShW |
| 12. | [ymunodd SC â'r cyfarfod]<br><br>**Diweddariad ar asesu opsiynau ar gyfer disodli'r system BSM**<br><br>Cyflwynodd SC ei ddiweddariad gan nodi'r cefndir o sut ddaeth S4C i ddefnyddio BSM.<br><br>Nododd CJ bod e'n bwysig bod ni'n edrych i weld pa systemau sydd ar gael y byddem yn hoffi defnyddio yn hytrach na ffeindio system sy'n ffitio i mewn i beth rydym yn gwneud ar hyn o bryd. Cadarnhaodd SC bod e a'i dîm yn mynd i ymweld â nifer o sefydliadau sy'n defnyddio amryw opsiynau meddalwedd ar hyn o bryd.<br><br>Gwnaeth SuD holi am ystyriaethau seiberddiogelwch os ydym yn rhoi mwy o bethau yn y cwmwl? Nododd SC byddai tîm InfoSec y BBC yn gwirio popeth pob cam o'r daith.<br><br>Roedd gan DLP gwestiwn ynglŷn â pha mor hir byddai'r system newydd yn gyfredol? Roedd SC yn awgrymu rhyw 10 i 12 blynedd.<br><br>Holodd SuD am oblygiadau cyllid? Dywedodd SC y byddai angen i ni ystyried gwariant cyfalaf perthnasol yn y blynyddoedd i ddod, unwaith y bydd costau wedi'i glirio.<br><br>[gadawodd SC y cyfarfod] | |
| 13. | [ymunodd RC a RhB â'r cyfarfod]<br><br>**Cyflwyniad: Diweddariad ar weithgareddau S4C mewn perthynas â'r amgylchedd, cynaladwyedd, ac amrywiaeth**<br><br>Cyflwynodd RC ei sleidiau gyda RhB yn cyfrannu, er mwyn cynnig diweddariad i'r Bwrdd ar weithgareddau diweddar S4C yn y meysydd o dan sylw..<br><br>Pwysleisiodd RC bod angen gwella'r ffyrdd o fesur amrywiaeth. Mae'r cynllun Diamond yn help ond nid yw'n datrys pob problem oherwydd mae'n her dangos pob math o amrywiaeth ar y sgrin.<br><br>Roedd y cyflwyniad wedi ystyried materion amgylcheddol ac Albert, ac roedd y sleid olaf yn amlinelli'r camau nesaf ar wahanol bileri.<br><br>Diolchwyd i RC a RhB am y cyflwyniad ac am wneud y gwaith pwysig hwn.<br><br>**Penderfyniad: I drefnu rhoi copi o'r cyflwyniad ar Diligent.**<br><br>[gadawaodd RC a RhB y cyfarfod] | LlP |
| 14. | **Adroddiadau gan y Pwyllgorau**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgorau canlynol, ac fe wahoddwyd y cadeiryddion i dynnu sylw'r Bwrdd at unrhyw faterion perthnasol nad oeddent eisoes wedi eu crybwyll yn ystod y cyfarfod hwn:<br>• Cynnwys (a gynhaliwyd 08.02.24)<br>• Bwrdd y Grŵp Masnachol (a gynhaliwyd 21.02.24)<br>• Archwilio a Risg (a gynhaliwyd 29.02.24)<br>• Cyfathrebu (a gynhaliwyd 01.03.24) | |
| 15. | **Cofnodion Cyfarfod Rhif 468 (a gynhaliwyd 25.01.24)**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Bwrdd, ac fe'u cymeradwywyd. | |
| 16. | **Cofrestr Pwyntiau Gweithredu**<br><br>Nodwyd y gofrestr Pwyntiau Gweithredu. | |

| | | |
|---|---|---|
| 17. | **Penderfyniad rhwng cyfarfodydd**<br><br>Ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor, roedd yr aelodau wedi cymeradwyo tri mater trwy ohebu:<br><br>Ar gais y DCMS, cytunodd yr aelodau anweithredol i enwebu Guto Bebb i ymgymryd â swyddogaeth Cadeirydd dros dro y Bwrdd Unedol.<br><br>Cytunodd yr aelodau anweithredol i benodi Sioned Wiliam i wasanaethu fel Prif Weithredwr dros dro.<br><br>Cymeradwyodd yr aelodau dros e-bost ddrafftiau diwygiedig o'r Cynllun Adfer a'r fersiwn esboniadol naratif, er mwyn mynd ati i ymgynghori gyda staff, Bectu a'r DCMS. | |
| 18. | **Rhaglen waith y Bwrdd ar gyfer y 12 mis nesaf**<br><br>Nodwyd rhaglen waith y Bwrdd ar gyfer y flwyddyn nesaf. | |
| 19. | **Unrhyw fater arall**<br><br>Diwedd tymor y Cadeirydd<br><br>Ar ddiwedd cyfarfod olaf RhW fel Cadeirydd y Bwrdd Unedol, diolchodd GB yn ffurfiol iddo ar ran y Bwrdd am ei wasanaeth i S4C dros y blynyddoedd diwethaf. | |